

***BRO DWYNWEN 25/12/2025
Dydd Nadolig – Christmas Day***



Collect 9

Hollalluog Dduw, sy'n ein llawenhau wrth goffáu yn fl ynyddol enedigaeth dy Fab Iesu Grist; caniatâ i ni, sy'n ei dderbyn yn llawen yn waredwr inni, edrych arno'n llawn hyder pan ddaw yn farnwr arnom; yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. .

Collect 9

Almighty God, you make us glad with the yearly remembrance of the birth of your Son Jesus Christ: grant that, as we joyfully receive him as our redeemer, so we may with sure confidence behold him when he shall come to be our judge; who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Eseia 62. 6-12

Ar dy furiau di, O Jerwsalem, gosodais wylwyr nad ydynt yn tewi ddydd na nos; chwi sy'n galw ar yr ARGLWYDD, peidiwch â distewi, na rhoi llonydd iddo, nes iddo sefydlu Jerwsalem, a'i gwneud yn destun moliant trwy'r byd.

Tyngodd yr ARGLWYDD i'w ddeheulaw ac i'w fraich nerthol, "Ni roddaf dy ŷd byth eto'n ymborth i'th elyn, ac ni chaiff dieithriaid yfed y gwin y llafuriaist amdano; ond y rhai a'i casgla fydd yn bwyta, ac yn diolch i'r ARGLWYDD amdano; y rhai a'i cynnull fydd yn yfed oddi mewn i gynteddau fy nghysegr." Ewch i mewn, ewch i mewn drwy'r pyrth, paratowch ffordd i'r bobloedd; codwch briffordd a symudwch y cerrig, dyrchafwch arwydd i'r bobloedd. Clywch, cyhoeddodd yr ARGLWYDD i bellafoedd y ddaear, "Dywedwch wrth ferch Seion, 'Y mae dy achubydd yn dyfod; y mae ei wobwr yn ei law, ac y mae ei dâl ganddo.' " Fe'u gelwir hwy yn Bobl Sanctaidd, Gwaredigion yr ARGLWYDD, ac fe'th elwir di, Yr un a geisiwyd, Dinas nas gwrthodwyd.

Isaiah 62. 6-12

Upon your walls, O Jerusalem, I have posted sentinels; all day and all night they shall never be silent. You who remind the LORD, take no rest, and give him no rest until he establishes Jerusalem and makes it renowned throughout the earth. The LORD has sworn by his right hand and by his mighty arm: I will not again give your grain to be food for your enemies, and foreigners shall not drink the wine for which you have laboured; but those who garner it shall eat it and praise the LORD, and those who gather it shall drink it in my holy courts. Go through, go through the gates, prepare the way for the people; build up, build up the highway, clear it of stones, lift up an ensign over the peoples. The LORD has proclaimed to the end of the earth: Say to daughter Zion, 'See, your salvation comes; his reward is with him, and his recompense before him.' They shall be called, 'The Holy People, The Redeemed of the LORD'; and you shall be called, 'Sought Out, A City Not Forsaken.'

Psalms 97

The LORD is king! Let the earth rejoice; let the many coastlands be glad! Clouds and thick darkness are all around him; righteousness and justice are the foundation of his throne. Fire goes before him, and consumes his adversaries on every side. His lightnings light up the world; the earth sees and trembles. The mountains melt like wax before the LORD, before the Lord of all the earth. The heavens proclaim his righteousness; and all the peoples behold his glory. All worshippers of images are put to shame, those who make their boast in worthless idols; all gods bow down before him. Zion hears and is glad, and the towns of Judah rejoice, because of your judgements, O God. For you, O LORD, are most high over all the earth; you are exalted far above all gods.

The LORD loves those who hate evil; he guards the lives of his faithful; he rescues them from the hand of the wicked. Light dawns for the righteous, and joy for the upright in heart. Rejoice in the LORD, O you righteous, and give thanks to his holy name!

Salm 97

Y mae'r ARGLWYDD yn frenin; gorfoledded y ddaear, bydded ynysoedd lawer yn llawen. Y mae cymylau a thywyllwch o'i amgylch, cyfiawnder a barn yn sylfaen i'w orsedd. Y mae tân yn mynd o'i flaen, ac yn llosgi ei elynion oddi amgylch. Y mae ei fellt yn goleuo'r byd, a'r ddaear yn gweld ac yn crynu. Y mae'r mynyddoedd yn toddi fel cwyr o flaen yr ARGLWYDD, o flaen Arglwydd yr holl ddaear. Y mae'r nefoedd yn cyhoeddi ei gyfiawnder, a'r holl bobloedd yn gweld ei ogoniant. Bydded cywilydd ar yr holl addolwyr delwau sy'n ymfrostio mewn eilunod; ymgrymwch iddo ef, yr holl dduwiau. Clywodd Seion a llawenhau, ac yr oedd trefi Jwda yn gorfoleddu o achos dy farnedigaethau, O ARGLWYDD. Oherwydd yr wyt ti, ARGLWYDD, yn oruchaf dros yr holl ddaear; yr wyt wedi dy ddyrchafu'n uwch o lawer na'r holl dduwiau. Y mae'r ARGLWYDD yn caru'r rhai sy'n casáu drygioni, y mae'n cadw bywydau ei ffyddloniaid, ac yn eu gwaredu o ddwylo'r drygionus. Heuwyd goleuni ar y cyfiawn, a llawenydd ar yr uniawn o galon. Llawenhewch yn yr ARGLWYDD, rai cyfiawn, a moliannwch ei enw sanctaidd.

Titus 3. 4-7

Ond pan amlygwyd daioni Duw, ein Gwaredwr, a'i gariad tuag at bobl, fe'n hachubodd ni, nid ar sail unrhyw weithredoedd o gyfiawnder a wnaethom ni, ond o'i drugaredd ei hun. Fe'n hachubodd ni trwy olchiad yr ailenedigaeth ac adnewyddiad gan yr Ysbryd Glân, a dywalltodd ef arnom ni yn helaeth drwy Iesu Grist, ein Gwaredwr. Ei ddiben oedd ein cyfiawnhau drwy ei ras, ac mewn gobaith, ein gwneud yn etifeddion bywyd tragwyddol.

Titus 3. 4-7

But when the goodness and loving-kindness of God our Saviour appeared, he saved us, not because of any works of righteousness that we had done, but according to his mercy, through the water of rebirth and renewal by the Holy Spirit. This Spirit he poured out on us richly through Jesus Christ our Saviour,

so that, having been justified by his grace, we might become heirs according to the hope of eternal life.

Luc 2. [1-7,] 8-20

[1-7]

Yn y dyddiau hynny aeth gorchymyn allan oddi wrth Cesar Awgwstus i gofrestru'r holl Ymerodraeth. Digwyddodd y cofrestru cyntaf hwn pan oedd Cyrenius yn llywodraethu ar Syria. Aeth pawb felly i'w gofrestru, pob un i'w dref ei hun. Oherwydd ei fod yn perthyn i dŷ a theulu Dafydd, aeth Joseff i fyny o dref Nasareth yng Ngallilea i Jwdea, i dref Dafydd a elwir Bethlehem, i ymgofrestru ynghyd â Mair ei ddyweddi; ac yr oedd hi'n feichiog. Pan oeddent yno, cyflawnwyd yr amser iddi esgor, ac esgorodd ar ei mab cyntafanedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty.

8-20

Yn yr un ardal yr oedd bugeiliaid allan yn y wlad yn gwarchod eu praid liw nos. A safodd angel yr Arglwydd yn eu hymyl a disgleiriodd gogoniant yr Arglwydd o'u hamgylch; a daeth arswyd arnynt. Yna dywedodd yr angel wrthynt, "Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb." Yn sydyn ymddangosodd gyda'r angel dyrfa o'r llu nefol, yn moli Duw gan ddweud: "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd." Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd, "Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano." Aethant ar frys, a chawsant hyd i Fair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb; ac wedi ei weld mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn. Rhyfeddodd pawb a'u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt; ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt. Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt.

Luke 2. [1-7,] 8-20

[1-7]

In those days a decree went out from Emperor Augustus that all the world should be registered. This was the first registration and was taken while Quirinius was governor of Syria. All went to their own towns to be registered. Joseph also went from the town of Nazareth in Galilee to Judea, to the city of David called Bethlehem, because he was descended from the house and family of David. He went to be registered with Mary, to whom he was engaged and who was expecting a child. While they were there, the time came for her to deliver her child. And she gave birth to her firstborn son and wrapped him in bands of cloth, and laid him in a manger, because there was no place for them in the inn.

8-20

In that region there were shepherds living in the fields, keeping watch over their flock by night. Then an angel of the Lord stood before them, and the glory of the Lord shone around them, and they were terrified. But the angel said to them, 'Do not be afraid; for see - I am bringing you good news of great joy for all the people: to you is born this day in the city of David a Saviour, who is the Messiah, the Lord. This will be a sign for you: you will find a child wrapped in bands of cloth and lying in a manger.' And suddenly there was with the angel a multitude of the heavenly host, praising God and saying, 'Glory to God in the highest heaven, and on earth peace among those whom he favours!'

When the angels had left them and gone into heaven, the shepherds said to one another, 'Let us go now to Bethlehem and see this thing that has taken place, which the Lord has made known to us.' So they went with haste and found Mary and Joseph, and the child lying in the manger. When they saw this, they made known what had been told them about this child; and all who heard it were amazed at what the shepherds told them. But Mary treasured all these words and pondered them in her heart. The shepherds returned, glorifying and praising God for all they had heard and seen, as it had been told them.

Gweddi Ôl-Gymun 12

Yn y Dydd Dduw ein Tad, daeth dy Air i'n plith ym Mhlentyn Sanctaidd Bethlehem: bydded I oleuni ff ydd oleuo ein calonnau a disgleirio yn ein geiriau a'n gweithredoedd; trwyddo ef sy'n Grist yr Arglwydd.

Post Communion Prayer 12

God our Father, whose Word has come among us in the Holy Child of Bethlehem: may the light of faith illumine our hearts and shine in our words and deeds; through him who is Christ the Lord.



*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd dda
i chi gyd*

*A Merry Christmas and
A Happy New Year to
You all*